# CYTUNDEB FFRAMWAITH RHWNG
# LLYWODRAETH CYMRU
# A CHOMISIYNYDD Y GYMRAEG

## CEFNDIR

Crëwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth y rôl I fodolaeth ar y 1af o Ebrill, 2012.

Pwrpas y Cytundeb Fframwaith yw amlinellu'r berthynas waith rhwng y Comisiynydd a'r Llywodraeth, tra'n parchu annibyniaeth y Comisiynydd. Mae hefyd yn amlinellu meysydd ble bydd cyd-weithio.

## CYFARFODYDD

Bydd y Comisiynydd yn cyfarfod, yn arferol, gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach pe byddai angen. Bydd cofnod yn cael ei baratoi o bob cyfarfod.

Bydd y Comisiynydd yn cyfarfod, yn arferol, yn chwarterol gydag Uwch-swyddogion y Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Bydd cofnod yn cael ei baratoi o bob cyfarfod.

Bydd staff y Comisiynydd yn cyfarfod gyda swyddogion y Llywodraeth fel bo angen i drafod y gyllideb, Safonau, ac i gyd-weithio ar y meysydd a amlinellir yn yr Atodiadau. Bydd cofnod yn cael ei baratoi fel bo'n briodol.

## RHANNU GWYBODAETH

Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r Llywodraeth o leiaf dau ddiwrnod gwaith o flaen llaw, gan rannu darnau dethol neu grynodeb, os yw yn bwriadu cyhoeddi unrhyw adroddiad sydd yn debygol o arwain at sylw cyhoeddus. Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i baratoi ei hymateb. Ni fydd y Llywodraeth yn datgelu gwybodaeth o'r fath cyn i'r Comisiynydd wneud ei chyhoeddiad.

Pan fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad ynglŷn â Llywodraeth Cymru, neu sy'n ymwneud â'i meysydd polisi, bydd yn rhannu gwybodaeth o flaen llaw ac yn ystyried

sylwadau'r Llywodraeth cyn cwblhau'r gwaith. Bydd copi o'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Llywodraeth o leiaf pum niwrnod gwaith llawn cyn cyhoeddi'r adroddiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gadael i'r Comisiynydd a'i Phwyllgor Archwilio a Risg wybod cyn gynted â phosib am unrhyw archwilio mewnol neu adolygiad ariannol all gael effaith ar y Comisiynydd. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau fod y Comisiynydd yn derbyn copi o Gylch Gorchwyl archwiliad neu adolygiad o'r fath, ynghyd â chopi o'r adroddiad terfynol. Bydd y Comisiynydd yn paratoi unrhyw wybodaeth fydd ei hangen ar gyfer paratoi, neu yn ystod, unrhyw archwiliad neu adolygiad.

**ARIANNU'R COMISIYNYDD**

Mae llythyr yn cael ei baratoi fydd yn amlinellu'r gyllideb fydd ar gael ar gyfer y Comisiynydd yn ystod 2012-13, ynghyd â'r achosion ble bydd y Comisiynydd angen caniatâd y Gweinidog. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn amlinellu'r broses o gytuno'r gyllideb ar gyfer y cyfnod ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Bydd y Comisiynydd yn trafod unrhyw gais am newid gwaelodlin ei chyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol gydag Uwch-swyddogion y Llywodraeth yn ystod y cyfarfodydd chwarterol. Bydd y Comisiynydd yn cyfarfod â swyddogion y Llywodraeth i drafod y gyllideb ddrafft yn gynnar ym mis Tachwedd. Bydd hyn yn gyfle i drafod unrhyw faterion eitemau nad ydynt yn gwbl glir. Bydd swyddogion y Llywodraeth yn ystyried ceisiadau'r Comisiynydd am gyllid mewn modd teg a heb ddylanwadu ar raglen waith y Comisiynydd. Bydd swyddogion y Comisiynydd yn darparu gwybodaeth i'r swyddogion y Llywodraeth i'w galluogi i baratoi cyngor i'r Gweinidog a pharatoi gosod y gyllideb ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**CYD-WEITHIO**

Bydd y Llywodraeth a'r Comisiynydd yn cyd-weithio mewn nifer o feysydd, a gall y rhain amrywio o dro i dro. Bydd hyn yn sicrhau fod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau. Amlinellir y meysydd hyn yn yr Atodiadau, a gellir ychwanegu a'u diweddaru drwy gytundeb pan fo'n briodol.

**ADOLYGU**

Mae'r Llywodraeth a'r Comisiynydd yn cytuno i adolygu'r Fframwaith hwn yn flynyddol a'i ddiweddaru drwy gytundeb.

**ARWYDDWYD**

............................................

Emyr Roberts
Cyfarwyddwr Cyffredinol
dros Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru, dan awdurdod
y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

Dyddiad............................2012

............................................

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad ...............................2012

## ATODIADAU

1. **SAFONAU**

2. **GWEITHIO GYDA'R SECTOR BREIFAT AR FATERION TECHNOLEG**

3. **YSTADEGAU AC YMCHWIL**
    1. GRWP PROFFESIYNOL
    2. ADRODDIAD 5 MLYNEDD YN ANNIBYNOL
    3. COMISIYNU AR Y CYD, YNGHYD AG AR WAHAN

4. **CYFIEITHU A THERMINOLEG**

5. **HYBU A HYRWYDDO**
    1. **RHANNU GWYBODAETH AM YMGYRCHOEDD**
    2. **CYNLLUNIAU MARCHNATA Y GYMRAEG**